***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3234 (Cy.281)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Rhagfyr 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7, 87(2) a (5)(a) ac 88(2) a (4)(a) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) (Diwygio) 2009. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 22 Rhagfyr 2009

### Diwygio Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid (Cymru) 2008

**2.** Mae Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008(**2**) wedi ei ddiwygio fel y'i nodir yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (Pathogenau anifeiliaid penodedig) ar ôl 34 (Feirws peste des petits ruminants) mewnosoder—

> "**34A.** genoteip feirws Syndrom Atgenhedlu ac Anadlu'r Moch".

**4.** Ym mharagraff 2 o Atodlen 2 (ymafael mewn pathogenau) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

> "(3) Nid yw is-baragraffau (1) na (2) yn gymwys yn achos pathogen o'r enw genoteip feirws Syndrom Atgenhedlu ac Anadlu'r Moch 2.".

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddodd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2008/1270 (Cy.129).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

7 Rhagfyr 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid (Cymru) 2008 O.S. 2008/1270 (Cy.129)) i ychwanegu pathogen arall (genoteip feirws Syndrom Atgenhedlu ac Anadlu'r Moch 2) at restr Rhan 1 yn Atodlen 1. Ni fydd y pŵer i ymafael yn y pathogen penodedig hwn yn gymwys gan nad yw'r afiechyd sy'n deillio ohono yn un a gwmpesir gan ofyniad cigydda o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Hysbyswyd drafft o'r Gorchymyn hwn i'r Comisiwn Ewropeaidd yn unol â Chyfarwyddeb 98/34/EC (darparu gwybodaeth ym maes safonau technegol), fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 98/48/EC.